Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Heddiw yw'r diwrnod cyntaf i'r ysgol gau yn orfodol ac rydym yn deall efallai eich bod yn pryderu ac yn teimlo pwysau i sicrhau bod eich plant yn cael eu haddysgu'n gywir gartref. Mae hwn yn mynd i fod yn amser pryderus i bawb ond yn anaml bydd gorfodi eich plant i ddysgu yn gweithio, bydd ond yn arwain at straen a phryder pellach i chi a nhw.

Mwy na thebyg byddwch wedi gweld y casgliad enfawr o weithgareddau addysgu a dysgu sydd ar y we ac ar gyfryngau cymdeithasol ond yn aml, y pethau syml a fydd yn cael yr effaith fwyaf a nhw bydd yn sicrhau bod eich plant yn parhau'n gryf yn ystod yr amser digynsail hwn. Darllenwch i'ch plant a gwnewch bethau hwyl. Chwaraewch gemau bwrdd, cwblhewch bosau, ewch ati i adeiladu gyda Lego (neu debyg), pobwch neu beintiwch. Yna byddant yn cofio'r amser heriol hwn fel amser pan oedd eu teulu'n chwarae gyda nhw ac yn gofalu amdanynt.

Do, mae'r athrawon wedi bod yn brysur iawn yn paratoi tasgau ar-lein a byddant yn cael eu diweddaru'n wythnosol ond os na allwch eu cwblhau, peidiwch â phoeni!

Nid oes yr un ohonom erioed wedi profi unrhyw beth fel hyn o'r blaen a byddwn yn gwneud ein gorau glas i'ch cefnogi hyd eithaf ein gallu. Peidiwch ag anghofio cysylltu trwy'r adran 'Cysylltwch â Ni' ar y wefan os oes angen unrhyw gymorth arnoch.

Rydym yn eich annog chi i gyd i ddilyn y cyngor Iechyd Cyhoeddus a roddir i'ch cadw chi a'ch teulu yn ddiogel ac edrychwn ymlaen at eich croesawu chi i gyd yn ôl pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.

Yr gywir,

Miss Evans a Staff Ysgol Gymraeg Cwmbrân.